



Cymdeithas Edward Llwyd

Bwletin Llên Natur 8

i Naturiaethwyr ac i Bobl Cymru
www.llennatur.com



St. Gerand le Puy, Allier, Ffrainc 2008

Gwenc'holo mis y cynhaeaf, mis y medi mis y gwelltyn gwyn

Yn y Llydaweg, yr enw
am fis Medi yw
Gwenc'holo
gwenn = gwyn
golo = gwellt

kolo-to = gwellt i'w rhoi ar y to

koloeg = tas wellt

koloenn = cwch gwenyn
(o wellt)

Bugeilio'r GWENITH GWYN

Efallai bod y Ffrancwr yn gwybod cystal â neb pa mor bwysig ydi bara yn ein hanes; mae cwmnïaeth dda o gwmpas y bwrdd bwyd yn gymaint rhan o'u diwylliant o hyd. Daeth ein gair "cwmni" yn anuniongyrchol o'u gair nhw *compagnie*, a'r gair hwnnw yn ei dro yn dod yn wreiddiol o'r Lladin *cum panis*, sef "ynghyd a bara". Mae'r gair yn datgan yn well na'r un gair arall mai creaduriaid cymdeithasol ydym. Yn wir rydym yn unigryw ymhlith yr anifeiliaid yn hynny o beth yn ôl Martyn Jones* wrth i ni rannu bara o gwmpas y tân gan sylu i lygaid ein gilydd mewn cyfeillgarwch a chynhesrwydd, dan wenu. Rhythu ar ei gilydd i fygwth mae creaduriaid eraill. Newidiodd y tân i fod yn fwrdd, ac erbyn hyn, newidiodd y bwrdd ar ambell aelwyd i fod yn deledu.

Mae taith drwy Ffrainc ym mis Mehefin yn bennaf yn daith trwy gnydau a fydd yn dorthau i borthi sgwrs ymhen hir a hwyr. Ymysg y cnydau amlwg ar y daith mae *blé* (gwenith), *orgue* (haidd), *avoine* (ceirch) a *seigle* (rhyg). Atgof yn unig sydd gennym yng Nghymru bellach o'r rhyg, mewn enwau lleoedd. Dywed Martyn Jones fod yr awydd am fara gwyn neu fara kann yn dyddio'n ôl ymhell iawn. Nid cyd-ddigwyddiad meddai mo'r tebygrwydd rhwng y gair gwenith a'r gair gwyn yn yr ieithoedd: gwenith gwyn, *white wheat* a *blé blanc*. I'r tlodion y perthynai'r dorth ryg frown, o leiaf hyd nes i ni ddechrau poeni am ein bwals a bwyta'n iach. Mae hyd yn oed enwau sentimental masnachol megis y *Mighty White* a *Mother's Pride* yn cario neges oesol y bara amheuthun gwyn fel canolbwynt cynnes yr aelwyd a'r teulu.

Fe drodd poblogaeth Prydain o fod yn fwyafrif gwledig i fwyafrif trefol yn yr 1830au ddegawdau cyn i hynny ddigwydd yng ngwledydd eraill Ewrop. Trefolwyd,

masnacheiddwyd a rhyngwladolwyd y diwydiant bwyd yma mewn modd nas digwyddodd o gwbl yn Ffrainc. Cadwodd Ffrainc ei thraddodiad ar gost mawr hyd y presennol. Mae ei chaeau a'i siopau yn tystio i hynny ac yn fodd i ninnau gofio ein gwreiddiau yn oes y Mac-fwydydd.



* Jones, Martyn (2007) Feast: Why Humans Share Food Gwasg Prifysgol Rhydychen *Addasiad o erthygl a ymddangosodd gyntaf yn Y Cymro*

* * * * *

Llythyr oddi wrth Ieuan Roberts

Yn yr erthygl ar Haf sych '76 rydych yn cofnodi nad oedd llawer o effaith wedi ei gael gan chwilen clwyf y llwyfen cyn 1976. Rhaid imi anghydweld. Yn fy nghartref yng Nglanrhyd, Edern roedd nifer fawr o goed llwyfen, mawr, bob ochr i'r hewl am tua chwarter milltir ond roedd y clwyf wedi dechrau effeithio arnynt tua 1963 ac erbyn 1976 roedd yn agos i dri chwarter ohonynt wedi marw yn barod ac erbyn tua 1982 roeddynt i gyd wedi mynd.

GAFROD Niwbwrch

Hen air Cymraeg am ysgub yw gafr ac mae'r gair yn fyw ar dafod lleferydd disgynyddion merched y matiau moresg yng nghorllewin Môn o hyd. Comisiynwyd y cerflun hwn gan y gof Ann Catrin i gofio'r diwydiant arbennig yma gan y Cyngor Cefn Gwlad. Mae'r gwaith yn syml ac yn drawiadol iawn.



Beth yw eich barn ar ei leoliad ar gyrion Gwarchodfa Natur Niwbwrch ac Ynys Llanddwyn?

Beth yw eich barn ar y defnydd o gelf yng nghefn gwlad yn gyffredinol?

Ysbrydoliaeth y gwaith yw ffurf y moresg (*marram grass*)



yn ei gynefin. Er mai prin yw'r matwyr erbyn hyn mae'r diwydiant yn mynd yn ôl i o leiaf yr ail ganrif ar bymtheg. Defnyddiwyd y moresg hefyd i wneud rhywi, rhaffau ac ysgubau glanhau. Pa mor bell cawsant eu hallforio? Oes rhywun yn cofio defnyddio *sea grass mats* yn yr ysgol? Yn lle? Ydych chi'n adnabod rhywun oedd yn gallu gwneud y matiau a'r nwyddau eraill? Soniodd Robert Bulkely yn ei ddyddiadur am brynu "taneu moresk" - llinyn neu

rwymyn oedd tant, ond yn anffodus ni ddywedodd ba ddefnydd a wnaeth ohonynt.

O Ddyddiaur Robert Bulkely, Dronwy, Môn

22 Chwefror 1632 *h pryce ap h [enw wedi ei dalfyrru] gaue me a 100 taneu moresg*

11 Gorff 1632 *all windy, J pd [L paid] 2d for taneu Moresk*

12 Hydref 1632 *J pd for taneu 6d*

12 Hydref 1633 *J set to Aberfro fayre, J bought there 3 yokes 18d 200 taneu 6d*

Transactions of the Anglesey Antiquarian Society 1937



Merched y matiau, Niwbwrch, ddechrau'r ganrif ddiwethaf

Mae'r rhigwm bach a gafwyd gan un o gyn-drigolion yr ardal yn dangos i'r diwydiant fanteisio ar lafur plant, ac nad oedd pob amser yn waith iach iawn chwaith:

Hogyn bach wedi marw

Ei fam a'i dad o'n crio'n arw

Gobeithio ei fod o'n well ei gartref

Nac yn Niwbwrch yn gwneud matiau

* * * * *

NODIADAU TYWYDD


Huw Holland Jones gyda chymorth Twm Elias



Cumulus congestus yw hwn, un o deulu mawr y *cumulus*. "*Mountains in the sky, not long dry*". Gwylwch y cymylau hyn, a'u cyfeiriad! Os tyfu a wnant, a tywyllu oddi tanynt, chwiliwch am gysgod! Os lleihau a wnant chewch chi ddim traferth, ond gwylwch am y nesa! (HHJ) **Cwn duon Caernarfon** - glaw trwm ar ei ffordd (Llanuwchllyn). Clytiau o gymylau duon yn rhes yn y gorllewin / gogledd orllewin yw y rhain (TE).

L l ê n y r H i n

Pigion o Lansadwrn



www.llansadwrn-wx.co.uk/daily/diarylast.html

Dyma'r nodyn yn nyddiadur Don Perkins sydd yn cyfri am y rhan fwyaf o'r glaw ym mis Ionawr:

Flooding was widespread in North Wales; at Talysarn near Caernarfon there was 3ft of water while the A299 in Pwllheli was flooded. With spring tides, and a tidal surge of about 0.5m at the mouth of the Conwy at midnight (data courtesy of Proudman Oceanographic Laboratory) runoff water from the mountains flowing down the river was held back. There was flooding in Llanrwst, where the River Conwy was overflowing, and villages along its length to its mouth at Conwy. With the next high tide, with even more runoff water arriving in the river, was at noon and with a surge of 0.6m more flooding could be expected, but no more problems were reported.

* * * * *

Pwt gan y NATURIAETHWR RHYS JONES

26 Gorffennaf 2008 Mi ddaliais i walch-wyfn y poplys nos Sadwrn ar veranda tafarn y Tŷ Newydd yn edrych dros draeth Aberdaron. Roedd llif-oleuadau cryf yn goleuo'r waliau gwynion a'r adeilad i gyd fel rhyw fothrap enfawr. Roedd tomen o bethau eraill yno hefyd - ond dim ond y gwalch-wyfn lwyddais i ddal. Tawel iawn o ran adar. Dim ond ambell i bila gwyrdd a llinos bengoch yn mudo a chydig o forwennoliaid pigddu yn hedfan am y de RJ



A sôn am wyfnod...pa un o'r rhain sydd yn debycach i flaen brigyn na blaen brigyn? Dwi'n cofio gweld llond y trap o rhain ac yn damio bod rhyw wynt yn y nos wedi ysgwyd darnau o frigau iddo - nes i mi sylweddoli mai gwyfnod oedden nhw. Enw'r gwyfnod? Y blaen brigyn wrth gwrs. Mi fydd rhestr enwau Cymraeg y gwyfnod ar gael cyn bo hir.

Arolwg y DYLLUAN WEN yng Nghymru



Ilun: Wil Williams, Bodorgan

Nodyn gan Rhodri Dafydd... Mae canlyniadau arolwg nythod y dylluan wen yn dechrau cyrraedd bellach. Ym Meirionnydd bu'n flwyddyn lwyddiannus dros ben, gyda phob pâr yn llwyddo i fagu 3 chyw gydag un pâr mewn nyth nid nepell o Ddolgellau yn llwyddo i ddodwy chwe wy. Cefais newyddion am ddau safle newydd sbon eleni ble roedd tylluanod wedi canfod safle nythu yn rhoeau hen Eglwysi, gan ddisodli ystumod trwyn pedol prin o'u clwydfannau yn y broses! Wyddoch chi am nyth tylluan wen?

* * * * *

..ac yn ôl at y CYNHAEAF



Mae'r llun ar y chwith yn dangos gwasg ffrwyth yr olewydd o Zakynthos, Gwlad Roeg.

Mae ffrwyth yr olewydd du a'r rhai gwyrdd yn dod o'r un goedden a naill yn fwy aeddfed na'r llall.

Yng Nghymru defnyddid yr un dull i wasgu afalau (isod) i wneud seidr o Dindyrn yng Ngwent tua 1600 o filltiroedd i fwrdd fel yr hêd y fran.



L l ê n y C r e a d u r i a i d

Beth yw BERTDIO?



Sylwch ar y brigau mân ar hyd pen y wal yn yr hen lun o Lanfair uchaf ger Harlech (saeth felen). Gwaith "berdio" yw hwn i rwystro defaid rhag dringo'r wal. "Gartre yn hel **ferd**" meddai Edward Thomas o Gwm Main, Y Bala yn ei ddyddiadur ar gyfer Mai 1774*. Yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru, o'r Saesneg *beard* y daw. Ym Môn tocio gwrych yw ystyr y gair, a sbarion trin gwrych felly fuasai'r brigau yn y fan honno. Yn Arfon, gosod brigau ar ben wal yw "berdio" ac mae'r gair "berd" o'r Bala yn awgrymu defnydd tebyg yno hefyd. [* Traf. Hyn. Sir Feir. 1969]

* * * * *

Cafwyd DAU LUN gan Aled Jones, Cynhyrhydd y rhaglen Galwad Cynnar y BBC

Meddai Aled yn ei ffordd ddihafal...

"Dyma lunia'r behemoth pry 'nw...tua thair centimetr...o Benrhyndeudraeth, 27 Gorff 2008":



Un o deulu'r *Tabanidae* o Urdd y Diptera (pryfed dwy adeiniog) ydi hwn. Mae'r pry llwyd cyffredin, y cleg neu'r *horse fly* yn Saesneg, yn un ohonyn nhw. Mae'r benywod yn glanio ar y croen yn slei bach i sugno gwaed. Bwyta neithdar blodau yn ddiwiwed mae'r gwrywod (deud dim...!! Gol.)

* * * * *

Llythyr: STEFFAN AB OWAIN, Archifdy Gwynedd

Y mae gennych chi lun o gored yng nghyffiniau Llandrillo yn Rhos yn Llên Natur 7. Byddai cored o'r enw Cored Rhos Fynach yn yr ardal ar un adeg, ond nid wyf yn hollol sicr os mai hon ydyw chwaith. Bydd yn rhaid cael cadarnhad. Dyma bwt amdano o Wikipedia...

The weir continued to provide a prosperous livelihood through to the early 20th century: during a single night in 1850, 35,000 herring were caught, and 10 tons of mackerel were removed in one tide as late as 1907.

[Because such weirs decimated inshore fish stocks, Parliament banned them in 1861 unless it could be shown they pre-dated the Magna Carta, which the then owners, the Parry Evans family, were able to prove.

CYNAEFU MAWN - a sêr - yn y Waunfawr

"Yr ydwyf yn cofio yr adeg pan oedd Owen Williams [1790-1874] yn lladd mawn yn y Waenpant [Waun Bant heddiw], tua'i chanol, ond ychydig yn nes i ochr Moel Eilio [sylwer Eilio nid Eilian fel mae pobl Waunfawr yn arfer dweud]; ac ar ôl cael tamaid i fwyta, hanner dydd, ar ddiwmod braf a chlir yn yr hâf, dywedodd wrthyf yn sydyn, 'Tyred gyda mi i ganol Waenpant yma, gael i ti weled sêr y ffurfafen gefn ganol dydd: nid wyf yn gwybod eu bod hwy i'w gweled mewn un man yng Nghymru ond yn y fan yma'. Felly ni a aethom yno. 'Dyma nhw.....planedau mawrion ydyw y rhai hyn' a syllai amynt yn ddfrifol am beth amser... Mi feddyliais ar ôl hyn, mai uchelder y mynyddoedd oedd yr achos - sef Mynyddfawr, Moel Eilio, a'r Wyddfa, gan roddi iddynt gysgodrwydd yn y ffurfafen, fel y gallai llygaid dynol eu gweled!!




Ar ôl cael mawn i lawr hefo y *car sledge* i'r tŷ, yr oedd Owain Williams yn arfer rhoddi gwahoddiadau i rai o'i gyfeillion yng Nghaemarfon a'r Waenfawr i ddyfod i weled y *Bureau* oedd ganddo yn y tŷ. Ac er eu syndod, beth oedd hwnnw ond tas o fawn o'r Waenpant, wedi ei phacio yn ofalus ar ochr y pared oddi fewn i'r tŷ, o'r hyn y cawd cryn hwyl a chwerthin." Williams, Thomas (1904) Gemau Gwyrfai: sef gweithiau barddonol a rhyddiaethol y diweddar Owen Williams (Owain Gwyrfai) Cyh: H Evans, Y Bala

* * * * *

MOEL EILIO, MOEL EILIAN - pryd? pam? ble?

Mae'r Waunfawr wedi ei fritho gan dai yn dwyn enwau fel Trem Eilian, Bron Eilian ac yn y blaen. Ni chlywais frodor o'r pentref yn galw'r mynydd ond wrth yr enw Moel Eilian. Ond Moel Eilio ydyw ar y mapiau OS ac i bawb nad ydynt o'r Waunfawr.



Yn Ysgrifau Wynnstay ymddangosodd y mynydd hwn yn 1538 fel *Myelilio*. Yn 1783, i'r Cymro di-Gymraeg Thomas Pennant *Moel Eilian* ydoedd. Onid ffurf leol fwy diweddar ar Eilio felly yw Eilian?

Oedd y MOELYDD pob amser yn foel?

The traveller...will go under Moel Eilian, a noble mountain of a stupendous bulk, cloathed with a smooth green turf, and most regularly rounded. Thomas Pennant 1783 *A Tour in Wales* (am y daith ar hyd dyffryn y Gwyrfai o Gaernarfon i'r Wyddfa)

Gallasai ddisgrifiad Pennant yn hawdd fod yn ddisgrifiad o'r mynydd yn ein canrif ni, ond ar ryw adeg yn y gorffennol mae'n rhaid bod y Foel hon, fel pob "Moel" arall, wedi ei gorchuddio â choed. Ai ar ôl iddynt golli eu coed y cawsant eu galw yn "foel", ynteu a oedd ystyr gwahanol i'r gair ar un adeg? A beth wnewch chi o'r Foel Goediog ym Meirionnydd?

Yn yr hen gyfreithiau, rhywbeth a saif yn uwch nag ymyl y llestr sy'n ei ddal yw *moel* (megis yn "a heaped teaspoonful")

13g. *Ilestr ymenyn heb uoyl ydaw* [Ilestr ymenyn heb y foel]. Efallai mai'r cwbl ydi *moel* felly yw bryncyn sydd yn sefyll uwchlaw'r tir cyfagos?